ADRODDIAD GAN BWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Gorchymyn Pysgota Cregyn Bylchog (Cymru) 2004

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ebrill 2005, rhoddwyd ystyriaeth i Orchymyn Pysgota Cregyn Bylchog (Cymru) 2004. Yr oedd y Pwyllgor wedi nodi'r Gorchymyn o'r blaen ar gyfer craffu.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r gwelliannau cymeradwy canlynol mewn perthynas â'r Gorchymyn:

Gwelliant 1 (yn enw Helen Mary Jones) - Adran 3 dileu "3 treillrwyd cregyn bylchog" ac ychwanegu "4 treillrwyd cregyn bylchog".

Gwelliant 2 (yn enw Helen Mary Jones) - Adran 4 ychwanegu fel pwynt newydd "Terfyn ar faint *towbars*. Dylai maint *towbars* gael ei gyfyngu i fod yn gymwys ar gyfer y nifer uchaf o dreillrwydi a ganiateir yn y ddwy ardal a bennir yn y Gorchymyn."

Cyflwynodd Helen Mary Jones y gwelliannau. Daw'r canlynol o drawsgrifiad y Pwyllgor:

Ynghylch y gwelliant cyntaf, sef dileu 'tair treillrwyd cregyn bylchog' ac ychwanegu 'pedair treillrwyd cregyn bylchog', dylid rhoi hynny yng nghyd-destun y ffaith ein bod yn cefnogi diben y Gorchymyn i'r carn. Mae pawb yn cydnabod bod treillio masnachol ar raddfa fawr yn peri llanast i'r gwelyau. Os bydd yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn parhau, ni fydd dim cregyn bylchog ar ôl. Yr ydym yn rhoi cefnogaeth lwyr i'r rheoli.

Ar ôl trafodaeth, cafodd gwelliant 1 ei gynnig yn ffurfiol gan Helen Mary Jones a phleidleisiwyd fel a ganlyn:

O blaid Helen Mary Jones, Glyn Davies, Brynle Williams, Mick Bates, Lorraine Barrett, Sandy Mewies, Alun Ffred Jones, Irene James, Carl Sargent.

Cytunwyd ar y gwelliant o 9 pleidlais i 0.

Ar ôl trafodaeth, cafodd gwelliant 2 ei dynnu'n ôl er mwyn caniatáu amser i'r Gweinidog ysgrifennu eto at ymgynghoreion i geisio'u barn. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 4 Mai, mynegodd y Gweinidog ei barodrwydd i dderbyn gwelliant 2 ar

ôl iddo ymgynghori â'r diwydiannau a gâi eu heffeithio o bosibl gan y cyfyngiad ar faint y towbars. Felly fe gytunwyd ar y gwelliant gan y Pwyllgor.

Argymhellodd y Pwyllgor fod y Gorchymyn yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar gynnwys y gwelliannau.



Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad